

# PARTNERIAETH GWLEDIG MÔN - COFNODION

Cyfarfod <i>Meeting</i>	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle <i>Venue</i>	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad <i>Date</i>	07/12/2015	Amser <i>Time</i>	4.30 pm

## Present:

Cynrychiolwyr Sector Breifat :		
Non Hughes	(NH)	
Dafydd Roberts	(DR)	
Cynrychiolwyr Sector Gwirfoddol / Cymunedol		
Dewi Jones	(DJ)	Partneriaeth Llangefni
Bryn Jones	(BJ)	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Mark Gahan	(MG)	
Alison Hughes	(AH)	
Heidi Williams	(HW)	
Cynrychiolwyr Sector Gyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai
Dylan Williams	(DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Staff Menter Môn		
Gerallt Llewelyn Jones	(GLLJ)	<i>Cadeirydd dros dro</i>
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Elfyn Roberts	(ER)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eifion Lloyd Jones	(ELJ)	

Pwynt	Manylion	Gweithred
2.1	Croesawyd aelodau i gyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol LEADER Ynys Môn gan Gerallt Jones y cadeirydd dros dro  Cyflwynodd aelodau ei hunain i'w gilydd.	
2.2	<b>Ymddiheuriadau</b> Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol  Jean Baker – Menai Bridge Industrial Heritage Trust (Sector Gymunedol) Dr Dylan Evans	

	<p>Mari Faulkener                  Alan Shenton – Job Centre Plus (Sector Gyhoeddus)                  Dr Trevor Jones                  Keith Moore                  Manon Roberts                  Adroddwyd y byddai Molly Lovett yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle Manon Roberts.</p> <p>Hysbysodd GLJ y cyfarfod fod Jean Baker wedi cael profedigaeth. 'Roedd ei gwr wedi marw yn sydyn yn y dyddiau diwethaf. Mynegwyd cydymdeimlad y cyfarfod.</p>	
2.3	<p><b>Cadeiryddiaeth</b></p> <p>Derbyniwyd tri enwebiad :                  Martin Jardine;                  Dylan Williams;                  Trefor Jones.</p> <p>Nid oedd DW a TJ wedi cytuno i roi eu henwau ymlaen . 'Roedd MJ wedi cytuno i gymryd y gadair am flwyddyn ond wedi gofyn i GLJ gadeirio'r cyfarfod yma.</p> <p>Awgrymodd hefyd y dylid ethol is gadeirydd – enwebiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	
2.4	<p><b>Datganiadau Diddordeb.</b></p> <p>Ni waned unrhyw ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.</p>	
2.5	<p><b>Cofnodion Cyfarfod – 29/09/15</b></p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.                  Cynigiwyd gan : Dylan Williams,                  Eiliwyd gan : Martin Jardine</p>	
2.6	<p><b>Materion yn Codi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 'Roedd copi called o'r Strategaeth Datblygu Lleol wedi ei gylchredeg. - 'Roedd hwn yn cynnwys y cynllun cyfathrebu , oedd wedi ei gylchredeg ar wahân.</li> <li>• 'Roedd cyflwyniad ar y Gronfa Datblygu Cymuned Gwledig ar raglen y cyfarfod.</li> </ul>	
2.7	<p><b>Confirmation of Thematic Groups</b></p> <p>Hwn oedd y cyfarfod cyntaf i'r swyddogion thematig ei fynychu ac fe gyflwynodd aelodau a swyddogion eu hunain, a'r swyddogion yn amlinellu'r themâu a'r prosiectau yr oeddent yn gweithio arnynt.</p> <p>Mynegodd NH y byddai 'n well ganddi fod ar un o'r grwpiau thematig ar wahân i'r un digidol ac ar ôl trafod cytunwyd y dylai 'r agwedd ddigidol fod yn rhan o bob them ac nad oedd angen grŵp penodol. Aelodau'r grŵp i'w rhannu rhwng grwpiau eraill.</p>	
2.8	<p><b>Arian ar gyfer cymorth arbenigol i ddatblygu prosiect.</b></p> <p>Cynigiodd DG y dylid clustnodi swm o arian (£5,000) i bob them fyddai yn cael</p>	

	<p>ei ddefnyddio o ddatblygu prosiectau cyn cyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Ni waned penderfyniad ar hyn.</p>	
<p>2.9</p>	<p><b>Ceisiadau Datganiad o ddiddordeb.</b>  Eglurodd GLJ mai'r grwpiau thematig, pan fyddent wedi eu sefydlu, fyddai yn ystyried datganiadau o ddiddordeb yn hytrach na'r bartneriaeth lawn.  Awgrymodd fod tri math o Ddatganiad diddordeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y rhai sy'n barod i fynd i gais llawn.</li> <li>• Y rhai sydd angen cyfarwyddyd / syniadau o'r grŵp thematig.</li> <li>• Y rhai sydd angen ychydig o gyllid i'w datblygu ymhellach e.e. Arbenigedd technegol / arbenigol / dichonolrwydd.</li> </ul> <p>a) <u>Grŵp Cynefin</u> – cynnig gan ddarparwr tai cymdeithasol yn gweithio gyda thrigolion de orllewin Môn i ddatblygu fersiwn o 'Energy Local' fyddai yn anelu i leihau tlogi tanwydd, lleihau CO2 a chynhyrchu ynni. Gofynnwyd am £2000 i symud y cynllun yn ei flaen.  <u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor ond angen mwy o fanylion ynghylch yr hyn y byddai'r arian yn cael ei wario.</li> <li>• Dylai unrhyw gyllid geisio adnabod gwaelodlin fel y gellir mesur unrhyw welliant.</li> <li>• Scottish Power yn edrych ar gynlluniau ar raddfa fawr yn ardal Biwmares.</li> <li>• Gallai ymchwil desg ganfod mentrau eraill mewn ardaloedd eraill.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y dylid mireinio'r cynnig i fod yn fwy penodol gyda briff clir ar gyfer y gwaith dan sylw a'i ddychwelyd at y grŵp thematig.</b></p> <p>b) <u>Môn SAR</u> - cynllun i sefydlu grŵp chwilio ac achub llawr gwlad wirfoddol ar yr ynys i fod yn rhan o chwilio am bobl bregus e.e. y rheini efo cyflwr Alzheimer neu broblemau iechyd meddwl. Roedd yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau brys a'r gwasanaethau achub mynydd.  <u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor</li> <li>• Gallai fod yn wasanaeth gwerthfawr.</li> <li>• Angen dangos sut y bydd yn cael ei werthuso a'r canlyniadau yn cael eu rhannu.</li> <li>• Beth fydd y strategaeth i barhau wedi'r treial os bydd yn llwyddiant?</li> <li>• Rhaid i'r elusen gael ei gweld yn helpu LEADER i dreialu hyn yn hytrach na LEADER yn cefnogi elusen benodol.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y gallai'r syniad fynd yn ei flaen i gyflwyno cais llawn.</b></p> <p>c) <u>Awyr Dywyll</u> - cynllun i gael pedwar ardal o Ynys Môn wedi ei chydnabod gyda statws Awyr Dywyll, yn debyg i'r hyn sydd wedi ei ennill gan Eryri yn ddiweddar, ac i fanteisio ar hyn trwy gychwyn digwyddiadau a gwyliau ar thema seryddiaeth. Gallai gynnwys elfennau o gydweithio ag Eryri a'r posibilrwydd o brynu / llogi telesgopau.  <u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor</li> <li>• Angen bod yn benodol ynghylch beth fydd cynnwys y treial</li> <li>• Angen cynnwys sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn y cais.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y gallai'r syniad fynd yn ei flaen i gyflwyno cais llawn.</b></p> <p>'Roedd y tri cais sy'n dilyn wedi deillio o weithdy Gorau Môn, ariannwyd trwy gytundeb y Bartneriaeth ac oedd yn rhan o strategaeth ehangach a gylredwyd i'r aelodau</p> <p>d) <u>Ail-frandio fel Ynys Fwyd</u> - Ers ei sefydlu mae grŵp Gorau môn wedi tyfu ac roedd teimlad fod angen addasu'r brand. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwaith yn costio £8,000 - 10,000</p> <p><u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor.</li> <li>• Pryder y gallai defnyddio "Ynys" mewn nifer o frandiau e.e. Ynys Ynni, Ynys Bwyd, arwain at ddryswch.</li> <li>• Pryder mai'r ymgynghorydd arweiniodd y gweithdy yn chwilio am waith oedd y tu ôl i hyn.</li> </ul> <p><b>It was resolved that the proposal could proceed to a full application.</b></p> <p>e) <u>% tarddiad</u> - arolwg o aelodau Gorau Môn i ganfod o ble daw'r cynhwysion maen nhw yn eu defnyddio h.y. faint ohono sydd wedi o'r ardal leol. Byddai'r cyllid oedd yn cael ei geisio (£1,500) yn cael ei ddefnyddio i gynllunio'r arolwg i gael y mwyaf posibl o wybodaeth.</p> <p><u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor</li> <li>• Gallai roi gwybodaeth ddefnyddiol</li> <li>• Gallai fod yn dimpled ar gyfer defnydd ehangach.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y gallai'r syniad fynd yn ei flaen i gyflwyno cais llawn.</b></p> <p>f) <u>Peilota Marchnad Bysgod</u> – Cefnogaeth i entrepreneuriaid ifanc i gynnal marchnad bysgod ym Mhier y Tywysog Porthaethwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor</li> <li>• Adeiladu ar weithgaredd blaenorol</li> <li>• Rhan o ymgysylltu â phobl ifanc.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y gellid symud ymlaen i wario £2,331.96 ar beilota Marchnad Bysgod.</b></p> <p>g) <u>Gwelliant Marchnad Ffermwyr</u> - Mae nifer mynychwyr y Farchnad Ffermwyr wedi dirywio a theimlwyd bod angen adolygu 'r aelodaeth, ffurf a lleoliad.</p> <p>Efallai y gellid uno â'r grŵp bwyd gan eu bod yn rhannu llawer o aelodau.</p> <p><u>'Roedd sylwadau yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogol o'r egwyddor</li> <li>• Pwysig fod y brandiau yn cydweithio</li> <li>• Pwysig edrych ar ardaloedd eraill i adnabod pa ffactorau oedd yn effeithio llwyddiant.</li> </ul> <p><b>Penderfynwyd y gellid symud ymlaen i wario £1,500 ar astudiaeth i adnabod ffyrdd o wella'r Farchnad Ffermwyr.</b></p>	
--	---	--

2.10	<b>Diwrnod ac amser y cyfarfod</b> Holodd MJ pa adeg o'r dydd a pha ddiwrnod oedd hwylusaf i aelodau. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion a chytunwyd i holi yr holl aelodau i weld beth oedd orau gan y mwyafrif.	Ymgynghori gyda'r aelodau pa ddydd / amser sydd orau.
	<b><u>Diwedd.</u></b>	